**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod** 20 Tachwedd 2019

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** **Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol**

**Teitl** Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Archwilio Mewnol

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn y gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu a ddaeth gyda'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion ym mis Mehefin 2018 ac yn dilyn yr adroddiad cyntaf yn rhoi diweddariad o gynnydd i'r pwyllgor ym mis Mehefin 2019.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r cyngor ac ysgolion yn gweithredu gwelliannau o ran 'Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion' ers i'r adroddiad Archwilio Mewnol gael ei gyflwyno. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd isel, felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd a gyflwynwyd i'r cyfarfod ym mis Mehefin 2019. Dyma'r ail adroddiad cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y pwyllgor yn adolygu cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu yr archwiliad a phenderfynu a oes angen unrhyw adroddiadau diweddaru pellach ynglŷn â chynnydd y cynllun gweithredu gwella.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae adroddiad dilynol Archwilio Mewnol (Atodiad 1) yn dangos bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud i gyflwyno a hyrwyddo hyfforddiant iechyd a diogelwch i staff ysgolion. Mae'r gwaith o ddatblygu system lwybro camau gweithredu wedi cael ei oedi oherwydd diffyg cynhwysedd y tîm TGCh - mae swydd datblygwr yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

Gan fod y ddau gam gweithredu wedi'u cyflawni yn rhannol, mae ein graddfa sicrwydd yn aros yn ganolig. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i fonitro’r camau gweithredu sydd ar ôl i’w cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda’r adroddiad hwn.